

Canllawiau i wneud cais am arian gan Gyfeillion Tryfan

Nod Cyfeillion Tryfan yw codi arian i'w ddefnyddio er budd addysg y disgyblion, i gyfoethogi cymuned yr ysgol, ac i helpu i farchnata'r ysgol. I'r diben hwn trefnir digwyddiadau codi arian mewn ymgynghoriad â'r disgyblion, y rhieni a'r athrawon.

Pwy all wneud cais?

- Disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion
- Cyngor yr Ysgol
- Athrawon
- Adrannau
- Y Pennaeth

Ar gyfer beth allwch chi wneud cais?

- Gall disgyblion unigol neu grwpiau wneud cais am gyllid 'dechrau busnes' i helpu gyda'r cwricwlwm menter. Mae angen i'r athro/athrawes berthnasol arwyddo'r ffurflen gais.
- Gall Cyngor yr Ysgol nodi, mewn cydweithrediad â'r athrawon a'r Pennaeth, prosiectau, offer, celfi neu eitemau eraill a fyddai, yn nhyb y disgyblion, yn cyfoethogi eu dysgu a/neu eu hamgylchedd.
- Gall athrawon ac adrannau wneud cais am offer, gan nodi'n glir sut y byddai addysg y disgyblion yn elwa drwy hyn a sut mae'n cefnogi'r cwricwlwm. Gallai swm uwch o arian fod ar gael os yw adrannau'n dangos y bydd yr arian yn cyfrannu at sawl agwedd o'r cwricwlwm ar draws adrannau. Mae angen i'r Pennaeth arwyddo'r ffurflen gais.
- Gall y Pennaeth wneud cais am gyllid a fyddai o fudd i'r ysgol yn gyffredinol, boed hynny i wella cymuned yr ysgol neu agweddau marchnata'r ysgol. Mae angen i'r llywodraethwyr gefnogi'r cais.

Dylid ymchwilio i ffynonellau cyllid eraill i ddechrau.

Faint gallwch chi ymgeisio amdano?

1. I ddisgyblion unigol sy'n dilyn y cwricwlwm menter, bydd uchafswm o £25 ar gael fel benthyciad, ac os yw'r prosiect yn gwneud elw, disgwylir i'r benthyciad gael ei ad-dalu.
2. Fel arfer bydd uchafswm o £500 ar gael i Gyngor yr Ysgol, athrawon, adrannau a'r Pennaeth. Bwriad hyn yw sicrhau y gellir ariannu mwy nag un prosiect.
3. Os yw'r adrannau eu hunain yn trefnu gweithgareddau codi arian, bydd holl elw'r gweithgaredd ar gael i'r adran honno ei ddefnyddio yn ôl eu doethineb.

Sut mae gwneud cais?

Llenwch y ffurflen gais sydd ynghlwm, a gwnewch yn siŵr ei bod wedi cael ei harwyddo gan y bobl briodol. Yna anfonwch y ffurflen gais naill ai yn electronig neu fel copi caled i Gadeirydd neu Drysorydd Cyfeillion Tryfan.

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad?

Bydd Cyfeillion Tryfan yn gwneud y penderfyniad yn eu cyfarfodydd rheolaidd, yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwyd. Efallai y gofynnir i chi am ragor o wybodaeth neu eglurhad.

Faint o amser fydd hi'n cymryd cyn i mi gael gwybod os wyf yn llwyddiannus?

Mae'r Cyfeillion yn cyfarfod yn rheolaidd a byddant yn ystyried ceisiadau yn y cyfarfodydd hyn. Bydd yr Ysgrifennydd yn dweud wrthoch beth yw'r penderfyniad ar ôl y cyfarfod.

Beth sydd angen i mi wneud os yw fy nghais yn llwyddiannus?

- Mae'n rhaid i chi gydnabod y cyfraniad a wnaeth y Cyfeillion i'r prosiect, drwy gyfeirio ato mewn rhyw ffordd.
- Yn dibynnu ar y ffordd y mae angen yr arian, mae'n rhaid i chi naill ai
 - Anfon anfoneb i'r Cyfeillion
 - Anfon derbynneb a manylion sut yr hoffech gael eich ad-dalu
- Os ydych wedi derbyn cyllid ar gyfer prosiect, mae angen anfon crynodeb byr o ganlyniad y prosiect un mis wedi ei gwblhau a gall fod angen ad-dalu benthyciad y pryd hwnnw, os yn briodol.

Ffurflen gais Cyfeillion Tryfan

Enw:	
Adran (nau):	
Manylion cyswllt: Ffôn:	
E-bost:	
Disgrifiwch y prosiect/offer yr hoffech gael arian ar ei gyfer	
Sut byddwch chi'n defnyddio'r arian?	
Sut byddwch chi / y disgyblion/ yr ysgol yn elwa o'r prosiect / yr offer yma?	
Am faint o arian ydych chi'n gwneud cais?	
Rhowch ddyfynbrisiau yr offer / cyfarpar / defnyddiau sydd eu hangen	
Llofnod yr ymgeisydd	Llofnod y sawl sy'n cefnogi
	Enw'r sawl sy'n cefnogi